


DATGANIAD NEWYDDION I YSGOLION A CHOLEGAU

Medi 2017

FMSP Cymru yn cynnal dwy gynhadledd undydd yng Ngogledd Cymru ar gyfer Blynnyddoedd 10 ac 11



Cynhaliodd FMSP Cymru ei ail gynhadledd lwyddiannus ym Mhrifysgol Glyndŵr ar y 4ydd o Orffennaf 2017. Mynychodd dros 80 o fyfyrwyr blwyddyn 10 o 7 ysgol yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint y gwahanol weithdai a sgysiau. Roedd 5 o'r ysgolion yn rhai newydd i'n cynhadleddau gyda 52% o'r myfyrwyr yn ferched. Roedd y gweithdai yn cynnwys: 'Cyfrifiadura Domino' gan Zoe Griffiths; 'Funacial Times' a gyflwynwyd gan Techniquet Glyndŵr, '14x + 15 = 71 Tuduriaid yn Trydar?' gan yr Athro

Gareth Ffowc Roberts a 'Creu Gemau gan ddefnyddio Mathemateg' gan yr entrepreneur lleol Gaz Thomas y mae ei gemau gwe wedi cael eu chwarae dros 500 miliwn o weithiau. Daeth y diwrnod i ben gyda sgwrs 'Mathemateg yn y Simpsons' ac roedd yr adborth yn dda iawn gan gynnwys athro yn dweud "Dangosodd berthnasedd mathemateg y tu allan i'r ystafell ddosbarth" a "Mwynheais y gwahanol agweddau". Enillodd myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Prestatyn y wobwr am y cwis.



Cynhaliwyd y 5ed gynhadledd flynyddol ar gyfer blwyddyn 11 ym Mhrifysgol Bangor ar y 12fed o Fedi. Mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Ehangu Mynediad, roedd ysgolion yn gallu cael cymorth gyda chostau teithio i'r gynhadledd a mynychodd 122 o fyfyrwyr o 9 ysgol ar draws Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, cynnydd o 39% ar bresenoldeb y llynedd ac roedd 54% o fyfyrwyr eleni yn ferched.

Cyflwynodd dau ddarlithydd o Brifysgol Bangor weithdai dwyieithog diddorol dan y teitl 'Delweddu Fectorau' a 'Pontydd, peli pêl droed ac iPhones: sut mae Peirianwyr yn gwneud gwell byd gan ddefnyddio mathemateg' a chafwyd gweithdy a sgwrs ddifyr gan y mathemategydd, cerddor a siaradwr Ben Sparks ar 'Mathemateg Hudol' a 'Chreu Rhif'. Roedd yr adborth yn wych gan gynnwys "Diddorol iawn ac wedi dylanwadu arnaf i gymryd Mathemateg Bellach" a "Gweld mathemateg wahanol i'r hyn a wnawn yn yr ysgol". Ysgrifennodd athro bod hwn yn "Gyfle i'r plant mwy galluog weld cyfleoedd i ddefnyddio mathemateg yn y byd go iawn"

